Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Academi Sgiliau Cymru yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot
**Heol Dŵr y Felin**
**Castell-nedd**
**SA10 7RF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/07/2014**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Academi Sgiliau Cymru Castell-nedd Port Talbot yn 2009, sef y Consortiwm Dysgu yn y Gwaith cyntaf yng Nghymru.

Mae'r consortiwm yn dod â 10 darparwr dysgu yn y gwaith at ei gilydd yn bartneriaid cyfartal, fu gynt yn annibynnol. Mae'r sefydliadau partner yn cynnwys: Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot; Pathways Training; Learn-kit Ltd; Gwendraeth Valley Community Enterprise Ltd (Gweithlu Cymru); Cyngor Gwledig Llanelli (LRC Training); ACO Training; Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Sgiliau a Hyfforddiant); Swansea ITeC Ltd; Coleg Merthyr; Coleg y Cymoedd (Coleg Morgannwg gynt); a Tydfil Training Ltd.

Er 1 Awst 2010, mae'r consortiwm wedi bod yn gweithredu gydag un contract gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddal gan Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot, ar gyfer cyflwyno rhaglenni dysgu yn y gwaith. Mae'r consortiwm yn cynnig rhaglenni hyfforddiant dysgu yn y gwaith mewn hyfforddeiaethau, Camau at Waith, Prentisiaethau Sylfaen a Phrentisiaethau Modern, diploma Sgiliau Modern, Prentisiaethau Uwch a dysgu Hyblyg ar draws ystod o sectorau sgiliau.

Mae Academi Sgiliau Cymru yn gweithredu ledled De Cymru a rhannau o Ganolbarth Cymru, gan gynnwys ardaloedd ym Mhowys a Cheredigion. Mae gan nifer o'r rhain ardaloedd hynod ddifreintiedig, er enghraifft Merthyr Tudful a'r Cymoedd. Yn fwy diweddar, mae un partner wedi dechrau gweithredu yng Ngogledd Cymru trwy drefniant is-gontractio.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y darparwr yn dda oherwydd:

- mae dysgwyr presennol yn dangos cynnydd da yn eu rhaglenni hyfforddi;
- caiff pob dysgwr asesiad cychwynnol trylwyr o'u medrau llythrennedd a rhifedd;
- mae mwyafrif y rhaglenni hyfforddi yn gweddu'n agos i anghenion dysgwyr a'u cyflogwyr;
- caiff dysgwyr eu cynorthwyo'n dda ac maent yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu; a
- darperir rheolaeth strategol dda gan Fwrdd Gweithredol y darparwr.

Fodd bynnag:

- er bod tuedd ar i fyny am dair blynedd mewn deilliannau ar gyfer dysgwyr, maent yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y sector dysgu yn y gwaith o hyd;
- nid yw newidiadau diweddar yn strwythur a chylch gwaith rhai o weithgorau'r darparwr wedi cael effaith ar ddarpariaeth eto; ac
- ni aethpwyd i'r afael â phob un o'r argymhellion o adroddiadau arolygu blaenorol.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella cyffredinol y darparwr yn dda oherwydd:

- mae'r darparwr eisoes wedi cymryd camau cadarnhaol i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr;
- mae gweithio mewn partneriaeth yn dda yn nodwedd gref yn y consortiwm;
- mae'r darparwr wedi nodi gwendidau mewn gweithgorau a chymerwyd camau priodol i wella'u perfformiad a'u heffeithiolrwydd; ac
- roedd barnau'r darparwr yn yr hunanasesiad yn cyd-fynd yn agos â deilliannau'r arolygiad.

Fodd bynnag:

- mae anghysondeb ar draws y consortiwm o hyd o ran integreiddio llythrennedd, rhifedd, yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ac ADCDF mewn rhaglenni dysgu;
- mae'r defnydd effeithiol o dechnegau holi gan diwtoriaid ac aseswyr gyda dysgwyr yn amrywiol ar draws y consortiwm; ac
- at ei gilydd, ceir anghysondeb wrth gyflwyno darpariaeth ar draws y consortiwm.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfraddau y mae pob un o'r dysgwyr yn cwblhau eu rhaglenni hyfforddi arnynt

A2 Gwneud yn siŵr bod y cynllun marcio'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws y consortiwm

A3 Gwella'r defnydd o dechnegau holi effeithiol gyda dysgwyr ar draws y consortiwm

A4 Gwella perfformiad y Grŵp Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth

A5 Gwella effeithiolrwydd y Gweithgorau Sector

A6 Sicrhau bod yr argymhellion o adroddiadau arolygu blaenorol Estyn yn cael eu cwblhau

### Beth sy'n digwydd nesaf?

O ystyried y farn ddigonol ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2.4, bydd yr arolygydd cyswllt yn cynnal ymweliad monitro i asesu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr o ran y materion a nodwyd gan yr arolygiad gyda'r grŵp Cydraddoldeb, Integreiddio ac Amrywiaeth a mynediad i bobl anabl ar ddau o safleoedd partneriaid.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau a'u rhaglenni astudio arnynt yn llwyddiannus yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer darparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru.

Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd (2012-2013) yn dangos bod y cyfraddau llwyddo ar gyfer dysgwyr ar bron pob un o'r rhaglenni eraill yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol, ac eithrio dysgwyr ar raglenni Hyfforddeiaeth, y mae eu cyfraddau llwyddo ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfraddau llwyddo Dysgu â Ffocws Gwaith uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r duedd tair blynedd o 2010-2013 yn dangos tuedd ar i fyny mewn cyfraddau llwyddo. Mae data'r darparwr ei hun, sydd heb ei gyhoeddi, o'r flwyddyn bresennol yn dangos bod y duedd ar i fyny hon yn parhau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau erbyn eu dyddiad targed. Maent yn ennill eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) ar lefelau disgwyliedig. Fodd bynnag, ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel 3. Mae bron pob un o'r dysgwyr o wahanol oedrannau, y rhai ag anableddau a'r rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cyflawni ar gyfraddau tebyg i gyfartaledd y consortiwm. Fodd bynnag, yn Rhanbarth De Orllewin y consortiwm, mae merched yn cwblhau ar gyfradd is na dynion.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr presennol yn gwneud cynnydd da ac yn dangos medrau ymarferol a theori da. Maent yn deall gofynion eu rhaglen ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Maent yn elwa ar adolygiadau rheolaidd ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt gynlluniau dysgu unigol sy'n gosod targedau priodol i gwblhau eu rhaglenni.

Mae gwaith y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'i gyflwyno'n dda ac yn gywir ar y cyfan. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o ddeilliannau eu hasesiad cychwynnol ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt dargedau penodol a thymor byr priodol i'w helpu i ddatblygu'r medrau hyn ymhellach. Er bod bron pob un o'r dysgwyr yn elwa ar adborth aseswyr ar eu llythrennedd, mae ansawdd yr adborth yn anghyson ar draws y consortiwm. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos medrau siarad a gwrando da.

Mae rhai dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'u medrau iaith ac yn cael eu hasesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ychydig iawn o ddysgwyr di-Gymraeg sy'n gwella'u medrau Cymraeg tra byddant ar y rhaglen.

## Lles: Da

Mae pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y gweithle ac yn eu hamgylchedd hyfforddi. Mae pob un ohonynt yn mynd trwy raglen ymsefydlu dda, sy'n rhoi sylw penodol i faterion iechyd, diogelwch a lles. Mae'r rhaglen yn sicrhau hefyd fod dysgwyr yn ymwybodol o'r cymorth a'r arweiniad sydd ar gael i'w helpu, gan gynnwys gyda phwy i gysylltu os bydd problem yn codi.

Caiff mwyafrif o ddysgwyr eu hannog yn rheolaidd gan staff y consortiwm i fwyta'n iach a byw bywyd iach. O ganlyniad, mae ychydig iawn o ddysgwyr wedi gweld gwelliant amlwg o ran faint o ymarfer corff y maent yn ei wneud ac yn eu harferion bwyta yn ogystal.

Mae gan bron bob un o'r dysgwyr agwedd gadarnhaol at eu rhaglen hyfforddi, ac maent yn hapus â hi. Maent yn awyddus i ddysgu ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos parch at ei gilydd ac at eu tiwtoriaid/aseswyr yn eu lleoliad hyfforddi ac yn y gweithle. Caiff rhai dysgwyr eu hannog i wneud dewisiadau am eu hyfforddiant ac awgrymu themâu ar gyfer eu rhaglenni hyfforddi yn y dyfodol, fel testunau'r mis, yn ogystal â pha unedau i'w cwblhau ac ym mha drefn.

Mae presenoldeb bron pob un o'r dysgwyr Hyfforddeiaeth yn dda. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr anghenion hyfforddi unigol, sy'n aml yn golygu dewis y dosbarth priodol i'w fynychu o ddetholiad o ddosbarthiadau sydd ar gael. Mae mwyafrif y dysgwyr yn gwneud defnydd da o'r hyblygrwydd hwn i'w helpu i wneud cynnydd da yn eu gwaith dosbarth a'u lleoliadau gwaith.

Mae rhai dysgwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau elusennol a chymunedol yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr prentisiaeth yn gweithio gyda'u cyflogwyr i godi arian ar gyfer elusen a dysgwyr ar raglenni Hyfforddeiaeth yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog. Mae rhaglen Ymddiriedolaeth y Tywysog yn golygu bod dysgwyr yn gweithio gyda chanolfannau cymunedol a chartrefi, yn ymweld ag ysgolion cynradd, ac yn adeiladu setiau llwyfan ar gyfer cymdeithas ddramatig amaturaidd a dosbarth dawns lleol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae Bwrdd Gweithredol y consortiwm yn cytuno ar ehangder y cwricwlwm gyda phartneriaid y consortiwm. Mae hyn yn lleihau achosion o ddyblygu'r ddarpariaeth yn hanesyddol gan bartneriaid a ymunodd â'r consortiwm. At ei gilydd, mae'r consortiwm yn darparu ystod dda o ddarpariaeth, sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi leol yn dda. Mae'r darparwr yn gweithio'n dda gyda busnesau bach a chyflogwyr cenedlaethol, gan addasu hyfforddiant yn unol ag anghenion cwmnïau unigol ac ychwanegu at eu rhaglenni hyfforddi presennol lle bo'n briodol.

Mae partneriaid y consortiwm yn addasu rhaglenni hyfforddi'n dda hefyd i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Mae rhai partneriaid yn y consortiwm yn cynnig rhaglenni

cymell defnyddiol sy'n helpu i baratoi dysgwyr i ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd gyda chyflogwyr.

Mae bron pob un o leoliadau cyflogwyr yn cynnig cyfleoedd da iawn i ddysgwyr ddatblygu eu medrau. Yn gyffredinol, ceir cyfatebiaeth dda rhwng lleoliadau gwaith a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae mwyafrif o staff y darparwr yn cynnwys cyflogwyr yn agos mewn cynllunio asesiadau dysgwyr. Ceir enghreifftiau niferus o gyflogwyr yn cadw dysgwyr hyfforddeiaeth fel prentisiaid cyflogedig.

Mae'r rhan fwyaf o staff y consortiwm yn rhoi ystyriaeth dda i asesiadau cychwynnol dysgwyr. Mae'r consortiwm wedi buddsoddi mewn datblygu offeryn asesu cychwynnol ar-lein trylwyr a hyblyg. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod dysgwyr, trwy ddefnyddio'r adnodd hwn, yn gwneud cynnydd da mewn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r consortiwm wedi mapio medrau Cymraeg ei staff yn effeithiol ac mae'n cynnwys staff o bob partner mewn codi ymwybyddiaeth ar gyfer Cymraeg sylfaenol. Mae'r consortiwm wedi creu adnodd defnyddiol Cymraeg yn y Gweithle i annog dysgwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae ei Grŵp Ffocws Cymraeg yn datblygu cymwysiadau Cymraeg defnyddiol ar gyfer diagnosis medrau. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud prosiectau sy'n helpu i wella'u hymwybyddiaeth o ddiwylliant ac economi Cymru a'r iaith Gymraeg.

Mae mwyafrif o diwtoriaid yn defnyddio testunau cyfoes yn dda i drafod a gwella ymwybyddiaeth dysgwyr o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Fodd bynnag, mewn rhai sesiynau, nid oes ffocws ar integreiddio Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDF) mewn sesiynau hyfforddi ac asesu.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae addysgu, hyfforddi ac asesu yn dda. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddwyr ac aseswyr ar draws y consortiwm yn dangos gwybodaeth bynciol dda. Defnyddiant eu profiad diwydiannol a gwybodaeth dechnegol yn dda i hyfforddi a chefnogi eu dysgwyr. Mae'r berthynas rhwng dysgwyr, hyfforddwyr, aseswyr a llawer o gyflogwyr yn dda. Mae hyn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth a hyder dysgwyr.

Mae llawer o hyfforddwyr ac aseswyr yn cynllunio a pharatoi sesiynau hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith yn dda. Defnyddiant ystod gynhwysfawr o ddulliau addysgu a hyfforddi mewn sesiynau hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae gan y rhan fwyaf o hyfforddwyr ac aseswyr ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr ac maent wedi ymrwymo i wella'u cymhwysedd ymarferol a'u gwybodaeth theori.

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddwyr ac aseswyr yn defnyddio ystod briodol o dechnegau holi. Fodd bynnag, ar draws y consortiwm, nid ydynt yn defnyddio holi'n effeithiol yn gyson i brofi dealltwriaeth dysgwyr a'u gwybodaeth ar lefel uwch. Mae sesiynau i ffwrdd o'r gwaith yn cynnwys cymysgedd da o weithgarwch dysgwyr a mewnbwn hyfforddwyr.

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddwyr ac aseswyr yn adolygu gwaith dysgwyr yn rheolaidd. Defnyddiant ystod dda o ddulliau asesu yn y gweithle ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae

llawer o aseswyr yn rhoi adborth llafar cynhwysfawr i ddysgwyr sy'n eu galluogi i wella'u perfformiad yn y dyfodol.

Ar draws y consortiwm, mae'r rhan fwyaf o hyfforddwyr ac aseswyr yn defnyddio strategaethau priodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Maent yn marcio portffolios a gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn rheolaidd. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn cywiro camgymeriadau sillafu a gramadegol ac yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws y consortiwm.

Mae hyfforddwyr ac aseswyr yn adolygu cynnydd dysgwyr yn rheolaidd. Yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn trafod ac yn cytuno ar dargedau priodol i ddysgwyr gwblhau asesiadau neu gasglu tystiolaeth portffolio. Pan fydd dysgwyr mewn swydd, mae hyn yn aml yn cynnwys y cyflogwr, a all hwyluso cyfleoedd i ddysgwyr gwblhau eu portffolio tystiolaeth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw'r targedau hyn bob amser yn ddigon penodol gyda therfynau amser clir ar gyfer cwblhau'r gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

At ei gilydd, mae partneriaid y consortiwm yn rhoi cymorth da i ddysgwyr.

Mae gan y consortiwm ystod eang o bolisïau perthnasol sy'n cwmpasu agweddau sy'n bwysig i les dysgwyr, gan gynnwys bwlio ac aflonyddwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac iechyd a diogelwch.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn hyrwyddo iechyd a lles yn effeithiol. Defnyddiant strategaethau a gwybodaeth sy'n berthnasol i anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cyflwyno ystod o themâu iechyd a lles yn rhaglenni dysgwyr. Maent yn ymgorffori testunau lles cyffredinol fel bwyta'n iach, hylendid personol, yfed yn ddiogel ac agweddau a meddwl cadarnhaol mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth. Maent yn trafod materion iechyd pwysig gyda dysgwyr yn ystod eu hadolygiadau, sy'n ymwneud yn benodol â rolau gwaith a meysydd galwedigaethol dysgwyr.

Caiff bron pob un o'r dysgwyr gyngor ac arweiniad priodol gan eu darparwr cyn iddynt ddechrau, ac yn ystod eu cyfnod ar raglen. Caiff pob dysgwr gyfnod ymsefydlu cynhwysfawr, sy'n eu helpu i ddeall eu rhaglen, eu cyfrifoldebau a'r cymorth y gall y consortiwm ei roi iddynt.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn trefnu bod dysgwyr yn dilyn rhaglenni sy'n addas ar gyfer eu hanghenion personol a dysgu penodol, gan gynnwys anghenion eu cyflogwr, lle bo'n briodol.

Mae holl bartneriaid y consortiwm yn defnyddio ystod gynhwysfawr o fecanweithiau cymorth i helpu dysgwyr. Mae arbenigwyr o fewn y consortiwm yn gweithio gyda dysgwyr i'w cynorthwyo trwy eu rhaglenni pan fydd angen anogaeth a chymorth ychwanegol arnynt. Mae partneriaid yn rhwydweithio'n llwyddiannus gydag ystod

eang iawn o asiantaethau a gwasanaethau allanol i ddarparu cymorth arbenigol i ddysgwyr a allai fod yn cael anawsterau penodol yn eu bywydau.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn defnyddio canlyniadau asesiadau cychwynnol yn effeithiol i ddarparu cymorth targedig a hyblyg i'r dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn nodi anghenion dysgwyr yn fedrus, sy'n aml yn amrywiol iawn, fel y maent yn codi yn ystod eu cyfnod yn hyfforddi ac yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cymorth priodol ac amserol.

Mae gan y consortiwm bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r consortiwm yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyson ar draws ei ddarpariaeth. Caiff dysgwyr wybodaeth am y testun hwn yn ystod eu cyfnod ymsefydlu a'u hadolygiadau dilynol. Ceir ystod o adnoddau defnyddiol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith dysgwyr. Mae gan bob partner bolisi priodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae polisi trosfwaol ar gyfer y consortiwm.

Mae Grŵp Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth y consortiwm yn gyfrifol am y dull cyson o ymdrin â chydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y bartneriaeth. Er bod y grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd, nid yw'r consortiwm yn casglu, dadansoddi ac arfarnu data ar gydraddoldeb yn effeithiol i fonitro pa mor dda y mae dysgwyr o grwpiau sy'n agored i niwed neu grwpiau lleiafrifol yn gwneud cynnydd yn eu dysgu. Mae'r consortiwm wedi cydnabod y diffyg hwn ac mae gwaith yn dechrau i ddefnyddio data cydraddoldeb i lywio'i waith yn fwy effeithiol. Ni chaiff effaith gwaith y grŵp hwn ar ddysgwyr ei harfarnu ddigon. Nid oes cyswllt clir rhwng adroddiad hunanasesu'r consortiwm (AHA) a blaenoriaethau'r grŵp Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn hyrwyddo amrywiaeth yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, maent yn defnyddio iaith sy'n atgyfnerthu stereoteipio. Er enghraifft, mewn trafodaeth ar fedrau trosglwyddadwy, defnyddiodd tiwtor enghraifft o hyfforddwr pêl-droed wrth ofyn beth arall allai "ef" ei wneud?

Mae'r consortiwm wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth fynd i'r afael â materion a nodwyd yn flaenorol mewn argymhellion arolygu ynghylch mynediad i adeiladau hyfforddi ar gyfer dysgwyr ag anableddau. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o faterion nad aethpwyd i'r afael â nhw o hyd ac nid ydynt wedi'u cynnwys yng nghynlluniau datblygu presennol y consortiwm.

Mae'r rhan fwyaf o weithleoedd a chyfleusterau hyfforddi yn darparu amgylchedd dysgu da. Mae'r rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth yn cynnwys offer da iawn ac ystod dda o adnoddau dysgu. Ceir mynediad da at dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn llawer o ystafelloedd dosbarth, sy'n galluogi tiwtoriaid a dysgwyr i fanteisio ar ddeunyddiau ymchwil a deunyddiau dysgu animeiddiedig. Mae gan y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth arddangosfeydd testunol sy'n dathlu gwaith dysgwyr ac mae llawer o diwtoriaid yn cyfeirio at y rhain yn ystod sesiynau. Mae'r rhan fwyaf o weithleoedd yn cynnwys offer da iawn ac yn rhoi cyfle da i ddysgwyr

ddatblygu medrau gweithle cyfoes a dysgu defnyddio technoleg gweithle fodern o ansawdd da.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae Bwrdd Gweithredol Academi Sgiliau Cymru (ASC) wedi gosod cyfeiriad strategol clir i'r consortiwm. Mae wedi datblygu a sefydlu gwerthoedd clir, nodau strategol a datganiad cenhadaeth ar gyfer cyflwyno'i gontract dysgu yn y gwaith ac arfarnu ei berfformiad.

Mae gan holl aelodau'r consortiwm ethos ar y cyd o ymddiriedaeth a chydweithio. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, fel partneriaid cyfartal, gan roi lefelau uchel o gymorth i'w gilydd. Mae'r strategaethau a'r camau gweithredu sy'n cael eu datblygu a'u rhoi ar waith gan uwch reolwyr a rheolwyr canol y consortiwm yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau arnynt.

Mae pob un o'r staff, ar draws pob partner, yn gwbl ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau unigol i wella profiad a deilliannau dysgwyr, ac yn glir ynglŷn â nhw.

Mae'r corff llywodraethol ac uwch reolwyr Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot, sef deiliad contract dysgu yn y gwaith yr Adran Addysg a Sgiliau ar ran y consortiwm, yn gweithio'n dda gyda Bwrdd Gweithredol Academi Sgiliau Cymru i adolygu perfformiad y consortiwm ac i helpu gosod targedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw'r targedau a osodir bob amser yn ddigon heriol.

Mae Grŵp Rheoli Perfformiad (GRhP) a Grŵp Rheoli Ansawdd (GRhA) y consortiwm yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro ac adolygu perfformiad y consortiwm ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r ddau grŵp yn dangos ymrwymiad cryf iawn i wella safonau ac ansawdd darpariaeth y consortiwm yn barhaus.

Mae Gweithgorau Sector y consortiwm yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartneriaid am y datblygiadau diweddaraf yn eu sectorau ac yn rhannu arfer dda ymhlith partneriaid. Maent yn adrodd yn rheolaidd i'r Grŵp Rheoli Perfformiad a'r Grŵp Rheoli Ansawdd ar eu cynnydd. Fodd bynnag, gan mai yn ddiweddar yn unig y cynhaliwyd adolygiad o gylch gwaith y grwpiau, mae'n rhy gynnar i arfarnu'r effaith ar ddysgwyr.

Ceir cyfathrebu da ar draws y consortiwm. Caiff data a gwybodaeth eu rhannu'n effeithiol.

Mae gan y consortiwm system drylwyr ar gyfer gwerthuso staff. Mae'n nodi gofynion datblygiad proffesiynol staff ac unrhyw hyfforddiant ychwanegol y gallai fod eu hangen arnynt. Pan nodir tanberfformio, caiff staff eu cefnogi'n dda.

Mae'r consortiwm yn cyfrannu'n dda at ystod eang o fentrau lleol a chenedlaethol Llywodraeth Cymru (LlC).

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r consortiwm yn gwneud defnydd da o restrau gwirio sicrhau ansawdd blynyddol i sicrhau ei hun bod pob partner yn rhoi systemau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd priodol ar waith.

Mae pob un o’r partneriaid yn paratoi eu hadroddiad hunanasesu (AHA) eu hunain ac yn cyflwyno eu AHA i grŵp Ansawdd y consortiwm i’w gynnwys yn AHA cyffredinol y consortiwm. Mae uwch reolwyr y consortiwm yn rhoi adborth defnyddiol i bartneriaid ac yn rhannu enghreifftiau o arfer orau yn adroddiadau hunanasesu unigol partneriaid ar draws y consortiwm.

Mae adroddiad hunanasesu’r consortiwm yn arfarnu deilliannau’n feirniadol ond nid yw’n gwneud defnydd digonol o ddata i gefnogi ei arfarniadau. Mae ei gynllun datblygu ansawdd yn fanwl ac yn cysylltu’n gywir â meysydd i’w gwella yn yr adroddiad hunanasesu. Fodd bynnag, nid yw rhai o’r camau gweithredu yn ddigon penodol.

Mae’r consortiwm yn defnyddio adolygiad deuddydd i safoni arsylwadau y mae partneriaid wedi’u gwneud o’u hyfforddiant a’u hasesiadau a phrofi’r barnau a luniwyd. Ceir cyfatebiaeth agos rhwng y barnau a gytunwyd a’r rhai a luniwyd yn ystod yr arolygiad hwn.

Mae’r consortiwm yn defnyddio’r deilliannau o arolwg Llais y Dysgwr, ynghyd ag ystod o fecanweithiau eraill, i gael safbwyntiau dysgwyr. Mae’r rhain yn cynnwys cinio a gwrando, blogiau, arolygon a chynhadledd i ddysgwyr. Mae’r consortiwm yn ymateb yn dda i’r awgrymiadau a wnaed gan ddysgwyr. Fodd bynnag, mae canlyniadau arolwg Llais y Dysgwr 2014 yn dangos gostyngiad o 2% yn safbwyntiau dysgwyr ar ba mor dda yw’r darparwr a gostyngiad o 1% yn arfarniad dysgwyr o ba mor dda oedd eu cwrs.

Mae grwpiau Ansawdd a Pherfformiad y consortiwm yn sicrhau bod holl aelodau’r consortiwm yn adolygu deilliannau yn rheolaidd ac yn gwneud yn siŵr bod pob partner yn cael y cymorth angenrheidiol sydd ei angen i wella ansawdd, er enghraifft trwy baru partneriaid i rannu arfer dda lle mae amrywiad sylweddol mewn deilliannau i ddysgwyr.

Mae’r consortiwm wedi sefydlu grwpiau sector i ganolbwyntio ar wella ansawdd yn ôl maes dysgu. Fodd bynnag, nid yw’r grwpiau wedi bod yn ddigon effeithiol ac mae’n rhy gynnar i ddweud a yw’r newid diweddar i gylch gwaith y grwpiau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr.

Mae’r consortiwm wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i’r afael â bron pob un o’r argymhellion o arolygiadau blaenorol partneriaid. Fodd bynnag, nid aethpwyd i’r afael o hyd â rhai materion yn ymwneud â mynediad i ddysgwyr ag anableddau i ganolfannau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae sefydlu'r consortiwm wedi golygu dod â darparwr dysgu yn y gwaith at ei gilydd yn bartneriaid cyfartal, fu gynt yn annibynnol. Mae'r broses yn datblygu'n barhaus ond gwnaed cynnydd da hyd yn hyn ac mae'n darparu cyfleoedd dysgu ehangach a gwell ar gyfer dysgwyr yn yr ardaloedd lleol.

Mae lefelau uchel o barch a pherthnasoedd gweithio agos yn bodoli rhwng yr holl bartneriaid. Mae amrywiaeth o weithgorau yn gosod meincnodau, yn ffurfio strategaethau ac yn datblygu adnoddau ar gyfer meysydd pwysig o ddarpariaeth fel dwyieithrwydd, llythrennedd, rhifedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Caiff arfer orau, adolygiadau cyfoedion a gweithgareddau datblygu staff eu rhannu ar draws y consortiwm, a'r nod yw codi safonau dysgwyr.

Mae gan y consortiwm drefniadau partneriaeth allanol da gydag amrywiaeth o sefydliadau, er enghraifft Cynghorau Sgiliau Sector, awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a Chanolfannau Gwaith. Mae'n cydweithio'n dda â nifer o fentrau fel Grŵp Cyflogwyr Sir Gaerfyrddin a grŵp strategaeth Merthyr ar gyfer Pobl Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NACH) i ddatblygu arferion cydweithio. Mae'n ymwneud yn agos â Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC) hefyd.

Mae cysylltiad y consortiwm â phartneriaethau 14-19 lleol yn dylanwadu'n sylweddol ar y cyfleoedd a gynigir i ddysgwyr.

Mae gan y consortiwm berthnasoedd gweithio da gydag ystod o gyflogwyr lleol, gan gynnwys cwmnïau cenedlaethol, busnesau bach a chanolig a'r sector gwirfoddol. Mewn lleiafrif o achosion, mae hyn wedi arwain at sicrwydd o gael swydd i ddysgwyr wedi iddynt gwblhau eu cymhwyster yn llwyddiannus.

Ym Maesteg, mae canolfan hyfforddiant adeiladu'r consortiwm wedi dechrau partneriaeth â 'Cymoedd i'r Arfordir' (Landlordiaid Cymdeithasol) i ddarparu ystod dda o weithgareddau dysgu a hyfforddi mewn defnyddio technolegau a deunyddiau newydd. Mae'r cytundeb hwn trwy gontract yn sicrhau cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer hyfforddeion, gan wella cyflogadwyedd i ddysgwyr. Mae'r effaith ar ddysgwyr yn gadarnhaol ac yn eu cymell i ennill eu cymwysterau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staff eu defnyddio'n briodol ar draws y consortiwm ac mae staffio yn bodloni anghenion dysgwyr yn dda. Mae partneriaid sydd â gwybodaeth arbenigol, er enghraifft yn y gyfraith ar ddiogelu a chyflogaeth, yn rhannu'r wybodaeth hon yn effeithiol gydag aelodau eraill y consortiwm. Mae'r consortiwm wedi dechrau rhannu ei staff ar draws darparwyr i ddarparu staff llanw pan fydd staff yn absennol.

Mae pob partner yn gyfrifol am anghenion datblygiad staff eu cyflogeion eu hunain. Cynhelir rhywfaint o hyfforddiant staff ar draws y consortiwm hefyd, ac eleni, mae hyn wedi cynnwys iechyd a diogelwch, llythrennedd, diogelu, addysgu a dysgu. Disgwylir i staff yn y digwyddiadau hyn ledaenu'r deilliannau ymhlith eu cydweithwyr. Fodd bynnag, nid oes unrhyw wiriad ffurfiol bod hyn wedi digwydd.

Bwriedir cyhoeddi canlyniadau archwiliad medrau diweddar o holl staff y consortiwm er mwyn sefydlu safonau cymwysterau gofynnol ar gyfer holl staff y consortiwm yn y dyfodol. Mae'r Grŵp Rheoli Ansawdd yn bwriadu defnyddio'r rhain a'r blaenoriaethau a nodwyd yn ystod adolygiadau ansawdd, gwerthusiadau a'r broses hunanasesu i osod blaenoriaethau datblygiad proffesiynol y consortiwm ar gyfer 2014-2015.

Mae bron pob un o'r amgylcheddau dysgu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o amgylcheddau gwaith yn ddiogel, glân a thaclus ac fe gaiff dysgwyr fanteisio ar offer arbenigol cyfoes. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn elwa ar brofiadau da yn y gweithle a chyfleoedd asesu da. Mae safon bron pob un o'r ystafelloedd dosbarth yn dda, a gellir defnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol a thechnolegau modern eraill ynddynt. Mae llawer ohonynt yn cynnwys arddangosfeydd ysgogol sy'n dathlu gwaith dysgwyr. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae cysylltiadau rhwydwaith ansefydlog yn amharu ar ddefnyddio'r adnoddau hyfforddiant ar-lein mewn ystafelloedd dosbarth.

Mae Bwrdd Gweithredol y consortiwm yn rheoli'r contract yn dda. Er Ionawr 2013, mae'r consortiwm wedi cael cyfarfodydd adolygu contract ffurfiol gyda phob un o'r partneriaid fu'n bresennol, er mwyn nodi unrhyw faes rhaglen a thanberfformio ariannol. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r consortiwm yn ailddyrannu arian o fewn y consortiwm i gynnig y budd gorau i ddysgwyr. Mae darpariaeth partneriaid nad ydynt wedi gallu gwella'u perfformiad wedi cael ei thynnu'n ôl.

Mae partneriaid llai o fewn y consortiwm wedi elwa ar gyfleoedd ar gyfer prynu crynswth.

At ei gilydd, mae deilliannau dysgwyr yn dda ac mae'r darparwr yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Mae Estyn yn defnyddio deilliannau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio holl arolygiadau addysg a hyfforddiant ôl-16. Arolwg boddhad dysgwyr a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr a Chwefror 2014 yw Llais y Dysgwr.

Mae'r arolwg yn gofyn ystod o gwestiynau i ddysgwyr am y pum thema allweddol ganlynol:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a roddir iddynt;
- ymatebolrwydd darparwyr, amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr;
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi; a
- boddhad cyffredinol.

Mae pob thema yn cynnwys ystod o gwestiynau yn gofyn i ddysgwyr raddio perfformiad eu darparwr.

Llenwyd yr arolwg gan fil tri chant a chwe deg chwech o ddysgwyr ar draws y consortiwm. Mae sampl yr arolwg yn cymharu'n dda â phoblogaeth dysgwyr y consortiwm.

Fe wnaeth pum deg wyth y cant o ymatebwyr raddio'r consortiwm yn dda iawn o gymharu â chyfartaledd y sector, sef 62%. Graddiodd 32% arall y consortiwm yn dda ar y cyfan. Mae'r canlyniadau cyfunol yn dangos gostyngiad o 2% o gymharu â chanlyniadau arolwg y llynedd. Roedd naw deg y cant o ymatebwyr yn credu bod eu cwrs yn well na'r disgwyl, sef y cyfartaledd ar gyfer y sector. Fodd bynnag, mae'n ostyngiad o 1% o gymharu â chanlyniadau arolwg y llynedd.

At ei gilydd, fe wnaeth dysgwyr raddio perfformiad y consortiwm islaw cyfartaledd y sector dysgu yn y gwaith, sef da iawn ar draws pob un o'r pum thema allweddol.

Mae'r consortiwm yn cyflawni sgorau ar gyfer 'da iawn' sydd islaw cyfartaledd y sector ar draws holl gwestiynau'r arolwg. Fodd bynnag, bu gwelliannau o gymharu â chanlyniadau arolwg y llynedd, yn cynnwys teimlo'n ddiogel (2%) ac addysgu a hyfforddi lle bu cynnydd mewn sgorau "da iawn" yn amrywio o 1-4% mewn pump o'r naw cwestiwn.

Mae'r arolwg yn dadansoddi ymatebion dysgwyr yn ôl gwybodaeth ddemograffig hefyd – rhywedd, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Yn gyffredinol, mae'r consortiwm yn cyflawni sgorau 'da iawn' is na chyfartaledd y sector ar draws yr holl ddemograffeg allweddol ar gyfer graddio'r consortiwm yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn ei raglenni nad ydynt yn rhai prentisiaeth, caiff sgorau uwchlaw cyfartaledd y sector. Ac eithrio dysgwyr sy'n ddynion a'r dysgwyr hynny o dan 19 oed, roedd sgorau islaw cyfartaledd y sector. Roedd sgorau gan ddysgwyr ethnig lleiafrifol 25% islaw cyfartaledd y sector. Ar gyfer y cwestiwn "A yw'r hyfforddiant hwn yr hyn yr oeddech yn disgwyl iddo fod?", mae'r sgorau demograffig yn cyd-fynd yn agos â chyfartaledd y sector.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Bernard O'Reilly | Arolygydd Cofnodol |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Christine Hooper | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Susan Scott | Arolygydd Cymheiriaid |
| James Nelson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Benjamin Arwyn Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lesley Rasmussen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nicola Gamlin | Arolygydd Cymheiriaid |
| Keith Booker | Enwebai’r Darparwr |